

Wythnos Addysg Oedolion

20-26 Medi 2021



Eich gwahoddiad i ymuno ag Wythnos Addysg Oedolion 2021

Mae Wythnos Addysg Oedolion yn chwarae rhan sylweddol yn hyrwyddo cyfleoedd i unigolion ddysgu sgiliau newydd, dod o hyd i adnoddau i gefnogi iechyd a lles, cychwyn diddordebau newydd neu ddechrau sgysiau am ailhyfforddi a dechrau o'r newydd.

Mae [llwyfan Wythnos Addysg Oedolion](#) wedi'i ddatblygu i rannu gwybodaeth, cyrsiau, a digwyddiadau arbennig er mwyn cysylltu pobl â phartneriaid a rhanddeiliaid ledled Cymru a thu hwnt.

Llynedd, fe gynhalion ni dros 500 o gyrsiau ar-lein gan ystod eang o sefydliadau gan gynnwys y Brifysgol Agored, BT, Cyfreithwyr Harding Evans, Amgueddfa Cymru, Chwaraeon Cymru, Head 4 Arts a Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes Abertawe. Drwy weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, fe lwyddon ni i lansio'r plattform y llynedd fel rhan o ymgyrch amlgyfrwng i hyrwyddo addysg oedolion pan oedd pandemig COVID-19 ar ei anterth. Gwylwch [y fideo yma](#) i ddysgu mwy. Eleni, fel rhan o ymgyrch Wythnos Addysg Oedolion rydyn ni'n cynllunio i gynnal cymysgedd o ddigwyddiadau a chysiau, sesiynau blasu, diwrnodau agored, a digwyddiadau allgymorth ar-lein, yn fyw ac wyneb yn wyneb, a fydd yn cael eu hyrwyddo i bobl ledled Cymru drwy gydol **mis Awst a mis Medi. Er mwyn sicrhau y bydd 2021 hyd yn oed yn fwy llwyddiannus, mae angen eich cymorth arnon ni!**

Rydyn ni am i chi fod yn rhan o'r Wythnos Addysg Oedolion a defnyddio'r llwyfan i hyrwyddo eich cyrsiau, digwyddiadau agored, sesiynau blasu ar-lein ac adnoddau dysgu er mwyn helpu i ennyn diddordeb ac ysbrydoli pobl i ddysgu rhywbeth newydd mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw.

Rydyn ni'n chwilio am bartneriaid i ddarparu dosbarthiadau blasu byw a digwyddiadau arbennig fel rhan o Wythnos Addysg Oedolion, a byddwn yn hyrwyddo unrhyw gyrsiau ac adnoddau sydd ar gael ac wedi'u rhestru ar y wefan rhwng mis Awst a mis Medi.

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn parhau â'i bartneriaeth â Llywodraeth Cymru er mwyn adeiladu rhwydwaith o bartneriaid ymgyrchu ac i gefnogi'r ymgyrch amlgyfrwng eleni, drwy godi ymwybyddiaeth, hyrwyddo a hysbysebu yn y wasg, ar y radio, ar gyfryngau cymdeithasol ac yn ddigidol. Helpwch ni i ledaenu'r gair er mwyn cael cymaint o bartneriaid â phosib i ymuno â ni – gallwch ddefnyddio'r [asedau cyfryngau cymdeithasol](#) yma i hyrwyddo'r gwahoddiad i'ch rhwydweithiau.

Mae pandemig y coronafeirws wedi effeithio ar fywydau llawer o bobl yn ein cymunedau ac wedi atgyfnerthu llawer o anghydraddoldebau. Mae angen i ni alluogi llawer mwy o bobl ledled Cymru i ymgysylltu â dysgu gydol oes. Mae datblygu sgiliau newydd yn gam hanfodol tuag at wella cyfleoedd a dewisiadau mewn bywyd.

[Cliciwch yma i weld pa ddigwyddiadau sydd eisoes ar gael ar y llwyfan.](#)

 Cymru'n Gweithio

#newiddystori



Gyrfa Cymru
Careers Wales



Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Pam ddylwn i gymryd rhan?

- Mae'n gyfle i ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd a phresennol (cafwyd dros 130,000 o chwiliadau ar y wefan y llynedd).
- Byddwch chi'n rhan o bartneriaeth bwysig yng Nghymru sy'n ceisio hyrwyddo dysgu gydol oes.
- Bydd gennych broffil ar lwyfan Wythnos Addysg Oedolion i godi mwy o ymwybyddiaeth o'ch darpariaeth.
- Byddwch yn chwarae rhan allweddol wrth gysylltu pobl yng Nghymru â chymorth iechyd a lles, dysgu a chyfluoedd cyflogaeth.
- Byddwch chi'n rhan o ymgyrch ledled Cymru i rannu straeon cadarnhaol ac uchelgeisiol i ysbrydoli eraill i ystyried dysgu, i ddatblygu sgiliau newydd ac i ddechrau o'r newydd.

Beth fydd angen i chi ei ddarparu...

Rydyn ni'n chwilio am adnoddau, cyrsiau a sesiynau blasu digidol/wyneb yn wyneb am ddim ac o ansawdd uchel a fydd yn helpu oedolion i ddysgu sgil newydd. Os yw'r rhain ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, mae hynny hyd yn oed yn well.

Gallai'r cynnwys fod yn:

1. Gyrsiau blasu/untro
2. Cyrsiau rhagarweiniol
3. Dosbarthiadau meistr
4. Taflenni gwaith
5. Cyrsiau parhaus
6. Diwrnodau agored (rhithwir neu wyneb yn wyneb)
7. Digwyddiadau cymunedol
8. Gweminarau
9. Cynadleddau
10. Dolenni at gyngor a gwybodaeth gyrfaoedd

Camau Nesaf...

Efallai eich bod eisoes yn bartner ymgyrchu.

Gallwch weld eich Proffil Darparwr ar y llwyfan drwy fewngofnodi i'ch cyfrif – bydd hyn yn caniatáu i chi ddiweddarau eich gwybodaeth darparwr ac uwchlwytho'ch cynnwys dysgu.

- Gwiriwch i weld a ydych chi wedi'ch cofrestru ar y llwyfan:
<https://adultlearnersweek.wales/cy/providers/>
- Os oes gennych fanylion mewngofnodi, yna mewngofnodwch i'ch cyfrif
(<https://adultlearnersweek.wales/cy/my-account/>) a dechreuwch ychwanegu eich rhestrau cyrsiau/digwyddiadau/adnoddau ar y llwyfan (*noder, rhaid i'r holl gynnwys gael ei uwchlwytho'n ddwyieithog*)
- Os ydych chi wedi anghofio neu golli eich manylion mewngofnodi, anfonwch e-bost i alwevents@learningandwork.org.uk neu ffoniwch 07920 040653 i ofyn am gymorth i ailosod eich manylion mewngofnodi.

Gallwch gadw eich gwybodaeth ar unrhyw adeg a dod yn ôl i'r dudalen cyn ei chyhoeddi. Gallwch uwchlwytho a golygu eich cynnwys ar unrhyw adeg cyn ac yn ystod yr Wythnos Addysg Oedolion, fodd bynnag, rydyn ni'n argymhell yn gryf bod yr holl gynnwys yn cael ei uwchlwytho cyn 1 Medi 2021 i sicrhau bod modd cyfeirio at eich cynnwys mewn negeseuon marchnata.

Os ydych chi'n newydd i'r ymgyrch, croeso – mae'n braf eich cael chi yma!

- Mae modd creu Proffil Darparwr yn hawdd a chyflym ac mae'r manteision yn ddiddiwedd. Llenwch y ffurflen fer isod a'i hanfon yn ôl i: alwevents@learningandwork.org.uk neu ffoniwch 07920 040653 os oes angen cymorth arnoch.

Enw	
Enw'r sefydliad/busnes	
Beth mae eich sefydliad yn ei wneud – trosolwg cryno	
Cyfeiriad e-bost	
Rhif ffôn cyswllt	
Cyfeiriad gwe	
Disgrifiad byr o'r sesiwn/sesiynau ar-lein/tiworial y gallwch eu cynnig <i>Dim mwy na 250 gair</i>	
Cymwysterau – rhwch amlinelliaid o gymwysterau neu brofiad y tiwtor/sefydliad	

- Bydd aelod o dîm y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn adolygu'ch ffurflen ac yn creu cyfrif ar eich cyfer. Yna, byddan nhw'n darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch er mwyn i chi allu diweddarau eich proffil darparwr.
- Mewngofnodwch i'ch cyfrif (<https://adultlearnersweek.wales/cy/my-account/>) a dechreuwch ychwanegu eich rhestrau cyrsiau/digwyddiadau/adnoddau ar y llwyfan (*noder, rhaid i'r holl gynnwys gael ei uwchlwytho'n ddwyieithog*).

Gallwch gadw eich gwybodaeth ar unrhyw adeg a dychwelyd at y dudalen cyn ei chyhoeddi. Gallwch uwchlwytho a golygu eich cynnwys ar unrhyw adeg cyn ac yn ystod yr Wythnos Addysg Oedolion, fodd bynnag, rydyn ni'n argymhell yn gryf bod yr holl gynnwys yn cael ei uwchlwytho cyn 1 Medi 2021 i sicrhau bod modd cyfeirio at eich cynnwys mewn negeseuon marchnata.

Rydwn i wedi uwchlwytho fy nghynnwys, beth yw'r camau nesaf?

Cadwch lygad ar agor am ragor o wybodaeth a fydd yn cael ei rhannu â chi dros yr wythnosau nesaf ac yn y cyfamser, rhwch wybod i'ch dilynwyd ar eich llwyfannau cymdeithasol eich bod yn cymryd rhan ac annogwch nhw i wneud yr un peth!